

How to spot ancient drainage patterns in fields

Fields across the Gwent Levels are naturally wet. They flood during the wintertime and remain very damp during the summertime. Although, there are many fields that become very dry, and that's because if we go back to the Roman times, they hand dug trenches with spades, often evenly spaced, and these are called grips. And just behind me there's a line going across, that's a grip. It's a dark line, and the reason it's dark is because there's a particular plant growing there, rush, and rush is very smooth to touch with a spiky top to it, and it loves living in these trenches that the Romans and then the Norman monks once dug.

The Romans first started digging these trenches, these grips, where water was then being taken off into nearby ditches and reens, so that during the summertime they could graze their horses, cows, and sheep. The Norman monks based at Goldcliff then went one step further and did even more drainage of the farmland and dug really big reens and ditches to take the water away from the farmland. The legacy is that many of these fields can be grazed by sheep, cows, and horses during the summertime, even though they may be too wet during the wintertime.

Despite that being very good for farmland, it is important to still have some dampness in these fields. Here at Magor Marsh for example, is a really important place for wildlife. Those grips that have the rushes there are great places for redshanks and lapwings to nest. These are declining wetland birds. And in the wider field around me there's lots of plants that really need these damp wet meadows. Ragged robin, marsh ragwort, greater birds-foot trefoil,

Sut i adnabod patrymau draenio hynafol mewn caeau

Mae caeau ar draws Gwastadeddau Gwent yn wlyb yn naturiol. Yn ystod y gaeaf, maen nhw'n boddi o dan lifogydd ac yn aros yn llaith iawn yn yr haf. Er hynny, mae yna lawer o gaeau sy'n sychu, a'r rheswm am hyn, os awn ni'n ôl i oes y Rhufeiniaid, roedden nhw'n cloddio ffosydd gyda rhawiau, yn aml gyda bylchau cyson rhwng y ffosydd, a gelwir y rhain yn 'gafaelion' (*grips*). Ac ychydig y tu ôl i mi fe welir un o'r ffosydd hyn fel llinell yn mynd ar draws. Mae'n llinell dywyll, a'r rheswm ei bod hi'n dywyll yw oherwydd bod planhigyn penodol yn tyfu yno, sef brwyn. Mae brwyn yn llyfn iawn i gyffwrdd gyda phen eithaf pigog, ac mae wrth ei bodd yn byw yn y ffosydd hyn a gloddiwyd gan y Rhufeiniaid ac yna'r mynachod Normanaidd.

Dechreuodd y Rhufeiniaid gloddio'r ffosydd hyn i gychwyn lle'r oedd dŵr ar y pryd yn llifo i mewn i ffosydd a rhewynau cyfagos, er mwyn i'r ceffylau, gwartheg a defaid allu pori yn ystod yr haf. Yna aeth y mynachod Normanaidd yn Allteuryn un cam ymhellach a draenio hyd yn oed mwy o'r tir fferm a chloddio rhewynau a ffosydd mawr iawn er mwyn gallu symud dŵr o'r tir fferm. Yr etifeddiaeth yw y gall defaid, gwartheg a cheffylau pori llawer o'r caeau hyn yn yr haf, hyd yn oed os yw'r caeau'n rhy wlyb yn y gaeaf.

Er y ffaith fod hyn yn dda iawn ar gyfer tir fferm, mae hefyd yn bwysig bod rhywfaint o leithder yn y caeau hyn. Yma yng Nghors Magwyr er enghraifft, mae'n lle pwysig iawn ar gyfer bywyd gwylt; mae'r ffosydd hynny sy'n gartref i'r brwyn yn lleoedd gwych i'r pibydd coesgoch a'r cornchwiglen i nythu, sef adar gwlyptir sy'n dirywio mewn niferoedd. Ac yn y cae ehangach o'm cwmpas mae yna lawer o blanhigion sydd wir yn dibynnu ar y dolydd gwlyb llaith hyn. Mae carpiog y gors, creulys y gors, pysen-y-ceirw fawr, a'r llafnlys bach, i enwi dim ond rhai, wrth eu bodd â chaeau fel hyn, wedi'u hamgylchynu gan synau ceiliogod

lesser spearwort, to name just a few, love fields like this, surrounded by the sounds of grasshoppers, because a damp wildflower meadow like this is an important home for wildlife. Lots of different sorts of insects, butterflies, grasshoppers, grass beetles, and those in turn, of course, provide lots of food the birds.

Now a great way of seeing those clues to how these fields have been drained is to get the train. And if you travel between Chepstow and Newport, particularly during the springtime, between March and May, and during the wintertime, you will see these evenly spaced lines, these grips. And you can see those from the Severn bridges all the way through towards Newport. And they really tell a story of 2000 years of history of the Romans and then the Normans, and then people since then digging these trenches and draining the water off into nearby ditches and reens.

rhedyn, oherwydd mae dŵl blodau gwyllt llaith fel hon yn gartref pwysig i fywyd gwyllt. Ceir llawer o wahanol fathau o bryfed, gloŷnnod byw, ceiliogod rhedyn, chwilod glaswellt, sydd wrth gwrs yn darparu llawer o fwyd i'r adar.

Ffordd wych o weld y cliwiau ar sut mae'r caeau hyn wedi'u draenio yw mynd ar daith trên. Os ydych chi'n teithio rhwng Cas-gwent a Chasnewydd, yn enwedig yn y gwanwyn rhwng mis Mawrth a mis Mai, ac yn y gaeaf hefyd, fe welwch y llinellau hyn gyda bylchau cyson rhyngddyn nhw, sef y 'gafaelion'. Ac fe allwch eu gweld o bontydd Hafren yr holl ffordd drwodd tuag at Gasnewydd. Maen nhw wir yn adrodd hanes am 2000 o flynyddoedd o'r Rhufeiniaid ac yna'r Normaniaid ac yna pobl ers hynny yn cloddio'r ffosydd hyn ac yn draenio'r dŵr i mewn i ffosydd a rhewynau cyfagos.